# Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru

8fed o Fedi 2025

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Pleser fu croesawu'r holl ddisgyblion i'r ysgol Dydd Mercher wedi deuddydd o HMS llwyddiannus a hyfryd nodi bod pawb wedi setlo nôl yn dda ac mae'r disgyblion sy'n newydd i'r meithrin a blwyddyn 7 i weld wrth eu boddau. Gwych gweld cymaint o flwyddyn 11 wedi dychwelyd i'r chweched Dosbarth ac edrychwn ymlaen yn fawr at flwyddyn lwyddiannus arall yn Ysgol Llanhari. Mae'r disgyblion wedi ymateb yn frwdfrydig yn y gwersi dros y tridiau diwethaf a hoffwn eu hannog hefyd i fanteisio ar y cyfleon sydd ar gael iddynt yn y clybiau allgyrsiol niferus a fydd yn cychwyn cyn bo hir. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, os am wybod mwy am hynt a helynt gwaith a gweithgareddau'r ysgol dilynwch ni ar ein cyfrif trydar X ysgol gyfan **@YsgolLlanhari** neu'n cyfrif Instagram **ysgol_llanhari** Mae gwybodaeth gyffredinol ar gael ar wefan yr ysgol www.llanhari.cymru

**Staff** Braf fu croesawu athrawon newydd a staff atodol ar ddechrau mis Medi.

**Athrawon newydd:** Mr Siôn-Rhys Evans (Gwyddoniaeth a Chemeg), Miss Rianna Sutton (Technoleg,) Mr Caeo Pryce (Cymraeg), Miss Lucy Clarke (CPA cynradd dros gyfnod mamolaeth Miss Evans) **Staff Atodol:** Braf croesawu Miss Chloe Gregory nôl i'r ysgol fel cynorthwywdd dros gyfnod mamolaeth

Miss Danielle Gunn bellach yw Arweinydd yr Adran Saesneg a Mrs Cerys Davies-Harries fydd Arweinydd yr Adran Gymraeg pan fydd yn dychwelyd o'i chyfnod mamolaeth ym mis Ionawr 2026. Mae Miss Beca Creamer a Mr Llion Jones yn gyd-gyfrifol am arwain yr Adran Gymraeg yn ystod y tymor hwn. Miss Sophie Wluka yw Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 8.

Os ydych am gysylltu ag unrhyw aelod o staff (cynradd ac uwchradd) yna ebostiwch post@llanhari.cymru os gwelwch yn dda. Hoffwn atgoffa'r rhieni uwchradd i gysylltu â'r dderbynfa yn hytrach na ffonio / anfon neges destun at eich plentyn yn ystod y dydd. Rydym yn disgwyl i'r disgyblion gadw eu ffonau wedi eu diffodd ar waelod y bag a'u defnyddio o dan gyfarwyddyd athro yn unig. Mae'r disgyblion yn llwyr ymwybodol o'r rheolau yma.

**Teulu Llanhari**
Bydd pawb yn derbyn copi diwygiedig o'n cytundeb cartref-ysgol Teulu Llanhari yr wythnos hon. Bydd holiadur pwysig ynhglwm ag e a gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r holiadur erbyn y 19eg o Fedi.

**Llongyfarchiadau!**
Braf iawn oedd gweld disgyblion y chweched dosbarth, staff a rhieni yn dathlu llwyddiant canlyniadau ardderchog Safon Uwch eleni. Rydym yn hynod o falch bod 100% o'r disgyblion wedi cyrraedd y Trothwy Lefel 3. Rydym yn hapus iawn bod 71% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill graddau A*-C mewn tri neu fwy o bynciau Safon Uwch gyda 90% o'r disgyblion yn ennill 3 gradd A*-E. Dathlwn hefyd lwyddiant yr holl ddisgyblion sydd wedi cyrraedd eu potensial ac sydd wedi gweithio yn ddygn a chael eu haeddiant. Llongyfarchiadau i'r holl athrawon a disgyblion a dymunwn yn dda i'r bobl ifanc fydd yn cychwyn ar fyd gwaith neu yn parhau â'u hastudiaethau mewn prifysgolion neu golegau ymhob cwr o'r wlad. Fe gafodd pob disgybl fynediad i'w dewis cyntaf o brifysgol ac mae hynny'n newyddion gwych! Roedd canlyniadau TGAU eleni hefyd yn arbennig ac yn adeiladu ar sylfaen a osodwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Unwaith eto eleni, penllanw dwy

fwy o raddau A*-A. Prin oedd yr wynebau siomedig wrth inni fel ysgol ddathlu blwyddyn arall o ganlyniadau cadarn lle llwyddodd disgyblion ar draws yr ystod gallu i gyrraedd eu nodau personol, gan amlygu ymroddiad arbennig i'w hastudiaethau. Diolch yn fawr i chi fel rhieni am eich cefnogaeth gyson i'ch plant ac am eich parodrwydd i gyd-weithio â'r athrawon.

**Safonau Uchel**

Ar ddechrau'r tymor atgoffwyd pob un o'r disgyblion am ein gwerthoedd a'n disgwyliadau o ran ymddygiad cadarnhaol (gan gynnwys y defnydd o ffonau symudol), Cymreictod, parch, presenoldeb, ymdrech a dyfalbarhad wrth gwblhau gwaith. Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth yn benodol wrth sicrhau safon uchel o ran y wisg ysgol. Mae'r disgwyliadau wedi eu nodi yn glir mewn gohebiaeth flaenorol ac mae'n glir ym mhrosbectws yr ysgol.

**Bromcom**

Dyma'r system newydd ar gyfer rheoli data'r ysgol. Yn anffodus, mae pob ysgol yn y Sir wedi cael trafferthion ers dechrau'r tymor ac ymddiheurwn am hyn. Diolch i chi am eich hamynedd! Mae ap i bob rhiant sef *My Child at School.* Os oes problem yna plis ebostiwch bromcom@llanhari.cymru

**Cofnodi Absenoldeb eich plentyn**

Mae presenoldeb disgyblion Ysgol Llanhari yn dda iawn a diolchwn i chi am eich cefnogaeth gyson. Byddwn yn rhannu cylchlythyr presenoldeb gyda chi'n fuan. Ar hyn o bryd, os am gofnodi absenoldeb eich plentyn ebostiwch absenoldeb@llanhari.cymru

**Trafnidiaeth**

Fel y gwyddoch, mae rheoliadau newydd wedi golygu nad yw'r disgyblion i gyd yn cael cludiant am ddim i'r ysgol ers mis Medi. Hoffwn eich hysbysu serch hynny bod cwmni bws Stagecoach yn darparu trafnidiaeth yn foreol o Gapel Bethel Pontyclun i Lanhari am £1 y siwrne ac mae First Cymru a Stagecoach yn dychwelyd o ardal y parc yn Llanhari am 3.25yp ar ddiwedd y dydd. Diolch yn fawr I'r rhieni sydd wedi bod yn cysylltu gyda Stagecoach a hyderwn y bydd modd trafod addasu rhywfaint ar y gwasanaeth gyda nhw dros yr wythnosau nesaf.

**Calendr y flwyddyn**

Byddwn yn dosbarthu calendr y flwyddyn i chi yr wythnos nesaf ond dyma'r prif ddigwyddiadau o fewn y bythefnos nesaf :

- 10 Medi — Cyfarfodydd cwrdd â'r athro cynradd
- 10 Medi — Cyfarfod Anwytho Blynyddoedd 12 a 13
- 15-17 Medi — Cwrs Preswyl Blwyddyn 7 ym Mae Caerdydd
- 17 Medi — Cyfarfod Anwytho Blwyddyn 10
- 17 Medi — Prynhawn Agored y Dosbarth Meithrin ar gyfer disgyblion Medi 2026
- 22 Medi — Cyfarfod i rieni ar gyfer Taith Sicily Hydref 2025

Dymuniadau gorau i bob aelod o Deulu Llanhari ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd hon.

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Pennaeth